

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 4ydd Hydref 2022

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan yr Is Gadeirydd, Jane Pierce a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol - Cadeiriwyd gan Jane Pierce ynghyd a'r Cyngorwyr, Richard Ll Jones, Ynyr Parri, Elwyn Jones, Sasha Williams, Phyllis Ellis, Dawn Parry, Idris Thomas Elfed Wyn Williams, Ellen George, Rhian Evans-Hill, Lowri Ann James.

Croesawyd y Cyngorydd Berwyn Parry Jones.

Ymddiheuriadau - Emma Chappell. Richard Jones a Gareth Griffith

Datgan Buddiant - Gan fod hwn yn gyfarfod trafod ceisiadau arferol, byddai pawb yn ymwybodol o beidio â chymryd rhan o fewn trafodaeth os oes diddordeb.

Cofnodion Cyfarfod y 6ed Fedi 2022

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir:

Idris Thomas (1)

Phyllis Ellis (2)

Materion o'r Cofnodion.

Cysgodfa'n Bws Brynrefail - Bu i Richard Jones alw heibio yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Mae'n ymddangos fod y gysgodfa'n yn cyrraedd gofynion cyngor Gwynedd, ond wrth gwrs nid oes cysgod o'r ffrynt fel oedd yn yr hen un. Mae Ynyr am weld y gosodwyr, i weld faint fydd y gost o ychwanegu hyn.

Eisteddfod Genedlaethol - Bu i ni dderbyn llythyr yn datgan mae £7500 yw targed y plwyf tuag at gronfa'r eisteddfod. Mae'r drefn wedi newid eleni, yn hytrach na bod pentrefi yn codi arian yn unigol, mae wedi ei rannu i Gymunedau. Oherwydd natur ein Cymuned ni, mae hyn yn codi dipyn o benbleth Yn dilyn trafodaeth, a gan nad os pwyllgor wedi ei sefydlu, penderfynwyd gyrru i bwyllgor yr eisteddfod yn gofyn iddynt roi datganiad yn y papurau bro i sylw pentrefi'r plwyf.

Lôn o Fethel i Crawia - Mae'r arolygwr ffyrdd yn mynd i ymweld y gordyfiant.

Gohebiaeth a Materion eraill.

GwyrddNI - Esboniodd y clerc for yna ffurflenni ar gael os oes rhywun yn dymuno llenwi addewid cynllun gweithredu'r cynllun cymunedau gwyrdd.

Cynllunio.

- i) **C22/0880/18/DT Ysgubor Cae Corniog**
Codi Anecs un llawr pren ar gyfer defnydd atodol i'r prif annedd - Dim Gwrthwynebiad
- ii) **C22/0883/18/DT Corlan y Bont**
Addasu Adeilad Allanol presennol i wasanaethu fel llety anecs - Penderfynwyd gwrthwynebu y cais yma gan fod trafndiaeth yn yr ardal yma o'r pentref yn warthus, ac mae'r anecs ond yn mynd i waethygu t sefyllfa sydd hefyd yn fynedfa ar lôn sydd yn gul

- iii) **C22/0882/18/TC Ysgubor Cae Corniog**
Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon - Dim Gwrthwynebiad
- iv) **C22/0832/18/II Ysbyty Chwarel**
Arwyddion Byrddau - Dim Gwrthwynebiad
- v) **C22/0648/18/LL Tir tros y Waun**
Dymchwel a chodi adeilad amaethyddol - Penderfynwyd Gwrthwynebu
Mae maint y sied sydd yn cael ei chodi yn anferthol i gymharu â'r un sydd yn cael ei thynnu. I ba bwrpas storio mewn sied môr fawr. Mae'r lôn yn arwain at y tir yn gul a throellog, ac yn pasio heibio cae chwarae fydd yn ychwanegu ar drafnidiaeth. Mae angen mwy o wybodaeth ar beth fydd yn cael ei storio yn yr adeilad.
- vi) **C22/0850/18/DT Cadnant, Bethel**
Estyniad arfaethedig - Dim Gwrthwynebiad
- vii) **C22/0858/18/DT 1 Maes y Ffynnon, Bethel**
Adeiladu Modurdy - Dim Gwrthwynebiad

Llwybrau

Llwybr i Ffynnon Bethel - Esboniodd y clerc nad yw'r llwybr yma ar restr torri llwybrau'r Cyngor yn bresennol. Cyn i ganiatâd ei gael i adeiladu'r tai cyfagos, nid oedd angen ei gynna gan ei fod ar dir fferm. Fodd bynnag, mae'r gordyfiant arno yn mynd i fod yn dipyn o waith ac yn gost ychwanegol i ddechrau, ac yn ac ond ei gadw i lawr. Gan fod yna hanes i'r ffynnon, penderfynwyd ceisio clirio'r drain sydd ar y llwybr dros fisoedd y gaeaf.

Llwybrau Rhiwlas - yn anffodus, mae'r gweithiwr oedd wedi cytuno, ac wedi cychwyn torri'r llwybrau wedi ei daro yn sâl, ac yn anffodus methu parhau. Gan ei bod yn hwyr bellach yn y flwyddyn, mae'r Cyngor am geisio dod o hyd i rywun eu torri yn drwyadl yr haf nesaf.

Llwybr a giât mochyn Llys - Derbyniwyd cais gan y tir feddiannwr gyda rheswm caniatool dros roi giât fochyn ar y tir. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad gan y Cyngor cyn belled bod amod ei fod yn cael cadarnhad gan Gyngor Gwynedd eu bod hwy yn mabwysiadu'r giât a bod y tir feddiannwr yn gwneud y gwaith ar gost eu hun.

Dau Lwybr naill ochr i Res Uchaf

Wedi sawl ymholiad i'r llwybrau yma, mae'r Cyngor Cymuned bellach wedi penderfynu llenwi'r tyllau er lles diogelwch, yn a bydd Cyngor Gwynedd yn eu mabwysiadu i'w cynnal. Byddwn yn chwilio am 3 amcan bris yn fuan i gwblhau'r gwaith.

Cynllun Hyfforddiant

Rhannwyd gwybodaeth a thempled am y cynllun hyfforddiant sydd yn dod i rym ym mis Tachwedd. Penderfynwyd pawb nodi o leiaf 2 bwnc neu gwrs y byddai o ddiddordeb iddynt Allu canolbwyntio arno a gyrru eu dewis i'r clerc. Bydd y clerc wedyn yn llenwi'r cynllun a gweld lle mae llefydd gwag i weithredu arno dros gyfnod o 2 flynedd.

Ceisiadau Ariannol

Derbyniwyd 22 o geisiadau am nawdd ariannol eleni

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn:

Cyfeillion Rhiwlas	300.00
Seindorf Arian Deiniolen	300.00
Llais Ogwan	50.00
Clwb Bowlio Bethel	200.00
Clwb Snwcer Deiniolen	200.00
Clwb Snwcer Bethel	200.00
Clwb Crefft Rhiwlas	200.00
Cylch Meithrin Deiniolen	300.00
Eisteddfod Undebol Penisa'r-waun	300.00
Eisteddfod Bethel	300.00
Neuadd Bentref Rhiwlas	300.00
Neuadd Bentref Penisa'r-waun	300.00
Clwb Pêl Droed ieuencid Bethel	200.00
Neuadd Goffa Bethel	300.00
Goleuadau Gŵyl Deiniolen	300.00

O Gwmpas y Bwrdd

Dim

Cadarnhau Taliadau:

£	£
598 - 604.00	599 - 749.00
600 - 300.00	601 - 300.00
602 - 50.00	603 - 200.00
604 - 200.00	605 - 200.00
606 - 200.00	607 - 300.00
608 - 300.00	609 - 300.00
610 - 300.00	611 - 300.00
612 - 200.00	613 - 300.00
614 - 300.00	